WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Darlun Cymharol o Wasanaethau Orthopedeg

# Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

**Dyddiad:** Mehefin 2015

**Cyfeirnod:** 705A2014

Mae'r adroddiad hwn wedi ei baratoi ar sail gwaith gafodd ei wneud dan y Government of Wales Act 1998 a Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Roedd tîm Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys Anne Beegan, Sian Davies, Andrew Doughton, Kate Febry, Delyth Lewis a Stephen Lisle o dan gyfarwyddyd David Thomas.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o’r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae’n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a’r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy’n gysylltiedig â hithau gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Mae ganddo’r pŵer statudol i gyflwyno adroddiadau i’r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna’r sefydliadau hynny o’u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella’r defnydd hwnnw.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol, ynghyd ag archwilwyr penodedig, hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae’n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â’i waitih gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi’i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori’r Archwilydd Cyffredinol.

Am ragor o wybodaeth ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffoniwch 029 2032 0500, e-bostiwch: post@archwilio.cymru, neu gweler y wefan www.archwilio.cymru.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2015

Cewch ailddefnyddio’r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio’n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teil y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Os ydych angen unrhyw un o’n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol cysylltwch â ni gan ddefnyddio’r manylion canlynol: Ffôn 029 2032 0500, e-bost post@archwilio.cymru.

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| | Adroddiad cryno | 4 |
| 1 | Gwasanaethau sylfaenol a chymunedol | 13 |
| | Darpariaeth gofal sylfaenol | 13 |
| | Atgyfeiriadau gan feddygon teulu | 16 |
| | Gwasanaethau asesu a thrin cyhyrysgerbydol cymunedol | 18 |
| 2 | Cleifion allanol a gwasanaethau diagnostig | 22 |
| | Gwasanaethau i gleifion allanol | 22 |
| | Gwasanaethau ffisiotherapi | 26 |
| | Gwasanaethau radioleg | 28 |
| 3 | Gwasanaethau i gleifion preswyl | 31 |
| | Aros a pharatoi i fynd i'r ysbyty | 31 |
| | Derbyniadau | 35 |
| | Aros yn yr ysbyty | 36 |
| | Rhyddhau cleifion | 37 |
| 4 | Apwyntiadau dilynol a chanlyniadau | 41 |
| | Trefniadau dilynol | 41 |
| | Canlyniadau a phrofiad cleifion | 42 |
| | Atodiadau | |
| | Atodiad 1 – Ffynonellau data | 46 |

# Adroddiad cryno

1 Yn 2013, cynhaliodd yr Archwilydd Cyffredinol adolygiad gorfodol lleol o wasanaethau orthopedeg ledled Cymru. Nod yr adolygiad oedd ateb y cwestiwn canlynol: 'A yw gwasanaethau orthopedeg yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus ac a ydynt yn cael eu cynllunio a'u darparu mewn ffordd gynaliadwy?' Mae canfyddiadau'r gwaith hwnnw wedi'u cyflwyno mewn adroddiad cenedlaethol, **Adolygiad o Wasanaethau Orthopedeg**.

2 Fel rhan o'r fethodoleg a oedd yn sylfaen i'r adolygiad, aethom ati i gasglu amrywiaeth o ddata er mwyn deall perfformiad gwasanaethau orthopedeg presennol ym mhob bwrdd iechyd. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno ein harolwg o wasanaethau orthopedeg ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) ar sail y data hwnnw, ac yn nodi sut mae'r gwasanaeth yn cymharu â gweddill Cymru.

3 Rydym wedi seilio ein harolwg ar effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd gwasanaethau orthopedeg y Bwrdd Iechyd drwy ddefnyddio llwybr y claf. Rydym wedi casglu'r data o ffynonellau amrywiol (gweler Atodiad 1), a'r data a ddefnyddir yw'r data mwyaf a oedd ar gael adeg cyflwyno'r adroddiad. Mae canfyddiadau'r dadansoddiad o'r data wedi'u cyflwyno ym mhrif ran yr adroddiad hwn, ond mae'r negeseuon lefel uchel wedi'u cyflwyno yn Arddangosyn 1. Mae Arddangosyn 2 yn asesiad cryno sy'n defnyddio statws goleuadau traffig i ddangos sut mae perfformiad y Bwrdd Iechyd yn cymharu â gweddill Cymru o safbwynt pob dangosydd, a sut mae'n cymharu â thargedau Llywodraeth Cymru, lle mae'r wybodaeth honno yn berthnasol.

Arddangosyn 1: Negeseuon lefel uchel

| |
|---|
| Mae cynnydd yn y galw a gwasanaethau orthopedeg rhannol aneffeithiol ar gyfer cleifion allanol yn arwain at amseroedd aros hir am driniaeth i gleifion allanol, triniaeth ddiagnostig a thriniaeth i gleifion preswyl. Ar ôl cael eu derbyn i'r ysbyty, yn gyffredinol mae hyd arhosiad cleifion yn fyr, er y gellid defnyddio adnoddau ar gyfer cleifion preswyl yn well. Mae angen gwella rhai canlyniadau yn dilyn llawdriniaethau hefyd:<br>• mae buddsoddiad mewn gofal sylfaenol yn lleihau ar adeg pan fo cyfraddau atgyfeirio meddygon teulu yn cynyddu, ac er bod Gwasanaethau Asesu a Thrin Cyhyrysgerbydol Clinigol (CMATS) ar waith, mae'n anodd iddynt ateb y galw cynyddol;<br>• er bod gwasanaethau ffisiotherapi yn gallu ateb y galw, mae rhai agweddau ar wasanaethau i gleifion allanol yn aneffeithlon ac mae amseroedd aros am brofion radioleg yn gallu bod yn hir, yn enwedig ar gyfer sganiau MRI;<br>• mae trefniadau asesu cyn llawdriniaeth ar waith ac yn gyffredinol mae hyd arhosiad cleifion yn llai nag yng ngweddill Cymru, ond gellid gwneud mwy i leihau cyfnodau aros cleifion cyn cael eu derbyn, cynyddu cyfraddau cleifion allanol a defnydd gwelyau, a gwella'r defnydd o theatrau ledled y Bwrdd Iechyd;<br>• mae trefniadau dilynol yn gweithio'n dda yn gyffredinol, er bod canlyniadau ymyriadau llawfeddygol yn amrywio ledled y Bwrdd Iechyd ac o gymharu â gweddill Cymru. |

Arddangosyn 2: Asesiad cryno

| Gwasanaethau sylfaenol a chymunedol | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| **A yw'r Bwrdd Iechyd wedi buddsoddi mewn darpariaeth gofal sylfaenol?** | | |
| Mwy o fuddsoddi mewn darpariaeth gofal sylfaenol cyhyrysgerbydol | Mae gwariant ar ddarpariaeth gofal sylfaenol ar gyfer problemau cyhyrysgerbydol wedi gostwng pedwar y cant rhwng 2010 a 2013. | ● |
| Cyfanswm y gwariant ar ddarpariaeth gofal sylfaenol | Mae gwariant cyfartalog ar ofal sylfaenol fesul pen o'r boblogaeth (£11.60) ychydig yn is na chyfartaledd Cymru gyfan. | ● |
| Cyfran cyfanswm y gwariant cyhyrysgerbydol sy'n cael ei dyrannu i ofal sylfaenol | Cyfran cyfanswm y gwariant ar ofal sylfaenol (9.9 y cant) yw'r isaf ond un yng Nghymru. | ● |
| Amrywiaeth y gwasanaethau cymunedol sydd ar gael i feddygon teulu | Mae amrywiaeth y gwasanaethau cymunedol sydd ar gael i feddygon teulu yn llai cadarnhaol na byrddau eraill. | ● |
| Derbyn ymyriadau amgen cyn llawdriniaeth | Mae'r graddau y mae cleifion yn derbyn ymyriadau amgen cyn llawdriniaeth yn amrywio, gyda chyfran uwch o gleifion yn derbyn cyngor ffisiotherapi a rhaglenni ymarfer corff na chyfartaledd Cymru gyfan. | ● |
| **A yw'r galw am wasanaethau gofal eilaidd yn cael ei reoli?** | | |
| Cyfradd atgyfeirio meddygon teulu | Mae'r gyfradd atgyfeirio meddygon teulu fesul 100,000 o'r boblogaeth wedi cynyddu i lefel ychydig yn is na chyfartaledd Cymru gyfan. | ● |
| Tuedd o ran atgyfeiriadau | Cynyddodd y tuedd o ran atgyfeiriadau meddygon teulu ym mis Mawrth 2013, ond mae nifer yr atgyfeiriadau tua 1,300 y mis bellach. | ● |

| Gwasanaethau sylfaenol a chymunedol | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| **A yw'r CMATS yn gweithredu'n effeithiol?** | | |
| CMATS ar waith | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno CMATS ym mhob ardal. | |
| Trefniadau gweithredol CMATS | Mae CMATS yn cydymffurfio ag egwyddorion allweddol Llywodraeth Cymru yn y tair ardal. | |
| Lefelau staffio CMATS | Mae lefel y staff fesul 1,000 o atgyfeiriadau meddygon teulu yn is na'r rhan fwyaf o dimau ledled Cymru. | |
| Cleifion sy'n cael eu trin gan CMATS | Cafodd 12.6 y cant o gleifion a atgyfeiriwyd asesiad wyneb yn wyneb gan CMATs. | Dangosydd disgrifiadol |
| Amseroedd aros ar gyfer asesiad wyneb yn wyneb gan CMATS | Mae amseroedd aros cyfartalog rhwng atgyfeiriad ac asesiad wyneb yn wyneb gan CMATs yn fwy na tharged wyth wythnos Llywodraeth Cymru, gydag arhosiad o 12 wythnos yn y dwyrain a'r gorllewin a 14 wythnos yn yr ardal ganolog. | |

| Gwasanaethau i gleifion allanol a gwasanaethau diagnostig | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| **A yw gwasanaethau i gleifion allanol yn effeithiol?** | | |
| Amseroedd aros am apwyntiadau cleifion allanol cyntaf | Mae canran y cleifion sy'n aros mwy na 26 wythnos am eu hapwyntiad claf allanol cyntaf wedi amrywio dros y tair blynedd diwethaf, ac mae perfformiad ers mis Awst 2013 yn uwch na pherfformiad Cymru gyfan. | |
| Sesiynau meddygon ymgynghorol i gleifion allanol | Mae nifer y sesiynau claf allanol meddygon ymgynghorol fesul 1,000 o atgyfeiriadau gan feddygon teulu yn debyg i gyfartaledd Cymru. | Dangosydd disgrifiadol |
| Clinigau cleifion allanol a ganslwyd | Roedd cyfradd y clinigau cleifion allanol a ganslwyd yn 2012-13 yn amrywio rhwng 2.8 ac 8.8 y cant. | |

| **Gwasanaethau i gleifion allanol a gwasanaethau diagnostig** | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| Cymarebau apwyntiadau newydd i apwyntiadau dilynol | Y cymarebau apwyntiadau dilynol i apwyntiadau newydd yw 1.94 apwyntiad dilynol i bob apwyntiad newydd, sy'n uwch na tharged Llywodraeth Cymru (1.9) ond yn is na chyfartaledd Cymru gyfan. | |
| Cyfraddau cleifion na fynychodd apwyntiadau | Mae cyfraddau'r cleifion allanol na fynychodd apwyntiadau newydd (7.2 y cant) o fewn cyfartaledd Cymru gyfan ond y gyfradd ar gyfer apwyntiadau dilynol yw'r uchaf ond un yng Nghymru (9.4 y cant). Mae'r ddwy gyfradd yn uwch na thargedau Llywodraeth Cymru. | |
| Cleifion yn canslo apwyntiadau | Ni allai'r Bwrdd Iechyd adrodd ar gyfran yr apwyntiadau a ganslwyd gan gleifion. | - |
| Cydgysylltu ymweliadau | Roedd naw deg dau y cant o gleifion yn teimlo bod y Bwrdd Iechyd yn ceisio cydgysylltu nifer eu hymweliadau. Dyma'r ganran uchaf ond un yng Nghymru. | |
| Cost fesul presenoldeb claf allanol | Mae cost presenoldeb claf orthopedeg allanol (£142.15) yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan a'r uchaf ond un yng Nghymru. | |
| **A yw gwasanaethau ffisiotherapi yn gallu ateb y galw?** | | |
| Amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau ffisiotherapi | Mae canran y cleifion sy'n aros llai nag wyth wythnos (86 y cant) yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan, a phrin yw'r cleifion sy'n aros mwy na 14 wythnos. | |
| Lleoliadau amrywiol | Mae gwasanaethau ffisiotherapi yn cael eu darparu mewn lleoliadau sylfaenol, cymunedol ac acíwt amrywiol. | |
| Mynediad hwylus | Mae cleifion yn gallu eu hatgyfeirio eu hunain yn uniongyrchol i'r gwasanaeth ffisiotherapi. | |
| Argaeledd gwasanaethau | Mae gwasanaethau ffisiotherapi i gleifion allanol yn parhau i gael eu darparu ar ffurf gwasanaeth pum diwrnod traddodiadol gan amlaf. | |

| Gwasanaethau i gleifion allanol a gwasanaethau diagnostig | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| **A yw gwasanaethau radioleg yn gallu ateb y galw?** | | |
| Amseroedd aros ar gyfer profion radioleg o bob math | Ers mis Awst 2013, mae amseroedd aros ar gyfer profion radioleg wedi bod yn well na chyfartaledd Cymru gyfan, er bod cleifion yn aros mwy nag wyth wythnos. | |
| Cyfraddau atgyfeirio MRI | Mae cyfraddau'r atgyfeiriadau ar gyfer sganiau MRI gan feddygon teulu a meddygon ymgynghorol yn is na chyfartaledd Cymru gyfan, ac eithrio atgyfeiriadau gan feddygon ymgynghorol yn yr ardal ganolog ac atgyfeiriadau gan feddygon teulu yn y dwyrain. | |
| Amseroedd aros am sganiau MRI | Mae amseroedd aros am sganiau MRI wedi newid o fod yn uwch ac yn is na chyfartaledd Cymru gyfan. | |

| Gwasanaethau i gleifion preswyl | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| **A oes tystiolaeth bod trefniadau yn ymwneud â thriniaethau llawfeddygol yn effeithiol?** | | |
| Trefniadau asesu cyn llawdriniaethau | Mae trefniadau asesu cyn llawdriniaethau ar waith ond maent yn anghyson ledled y Bwrdd Iechyd. | |
| Cael asesiad cyn llawdriniaeth | Cafodd pob claf a oedd yn cael llawdriniaeth i osod pen-glin newydd asesiad cyn llawdriniaeth, ond cafodd 27 y cant yr asesiad llai na thair wythnos cyn y llawdriniaeth. | |
| Triniaethau sy'n cael effaith glinigol gyfyngedig | Cyfradd y triniaethau sy'n cael effaith glinigol gyfyngedig yw'r isaf yng Nghymru. | |

| Gwasanaethau i gleifion preswyl | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| Cyfraddau cleifion allanol Cymdeithas Llawdriniaeth Ddydd Prydain | Mae canran y triniaethau orthopedeg a argymhellir sy'n cael eu cwblhau fel achosion cleifion allanol yn nhri o ysbytai'r Bwrdd Iechyd yn cymharu'n dda, er bod perfformiad yn Ysbyty Maelor Wrecsam yn is na tharged Llywodraeth Cymru a'r perfformiad yn Ysbyty Glan Clwyd (dim ond 37 y cant) yw'r isaf o holl ysbytai'r GIG yng Nghymru. | |
| Cyflwyno 'ysgol ar y cyd' | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno 'ysgol ar y cyd' ym mhob ardal. | |
| Amseroedd aros am lawdriniaethau | Mae canran y cleifion sy'n aros mwy na 26 wythnos i gael eu derbyn fel claf preswyl neu glaf allanol wedi bod yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan ers mis Mai 2013. | |
| **A yw nifer y gwelyau'n cael ei ddefnyddio yn effeithiol?** | | |
| Derbyn cleifion ar ddiwrnod eu llawdriniaeth | Mae perfformiad yn erbyn targed Llywodraeth Cymru yn gadarnhaol ym mhrif ysbytai'r Bwrdd Iechyd ac eithrio Ysbyty Gwynedd, lle mae llai na hanner y cleifion yn cael eu derbyn ar ddiwrnod eu llawdriniaeth. | |
| Gostyngiad yn nifer y gwelyau i gleifion preswyl | Mae cyfanswm y gwelyau ar gyfer cleifion orthopedeg wedi gostwng 11 y cant dros y pedair blynedd diwethaf i 163. | Dangosydd disgrifiadol |
| Defnyddio gwelyau | Mae cyfraddau defnyddio gwelyau wedi cynyddu ychydig i 74.3 y cant yn 2013-14,sydd dipyn yn is na'r lefel optimaidd o 85 y cant. Mae perfformiad yn amrywio ar safleoedd gwahanol. | |

| Gwasanaethau i gleifion preswyl | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| **A yw capasiti theatrau llawdriniaeth yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol?** | | |
| Defnyddio theatrau | Mae perfformiad yn amrywio rhwng 67 a 106 y cant o'r capasiti sydd ar gael mewn theatrau. Mae hwn yn berfformiad eithaf cryf, ond nid yw pob safle yn cyrraedd targed 95 y cant Llywodraeth Cymru. | |
| Llawdriniaethau a ganslwyd | Cyfradd gyfunol y llawdriniaethau a ganslwyd yn ysbytai'r gorllewin oedd 10.1 y cant, o gymharu â pherfformiad cyfunol o 13.4 y cant yn yr ysbytai canolog a 21.4 y cant yn Ysbyty Maelor Wrecsam. Nid oes cymhariaeth ar gael. | |

| A yw hyd arhosiad cleifion mor fyr â phosibl? | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| Hyd arhosiad cyfartalog ar gyfer derbyniadau orthopedeg dewisol | Hyd arhosiad cyfartalog cleifion orthopedeg dewisol yw 3.4 diwrnod, sydd o fewn targed pedwar diwrnod Llywodraeth Cymru. | |
| Hyd arhosiad cyfartalog ar gyfer llawdriniaeth i osod cluniau a phengliniau newydd | Mae'r hyd arhosiad cyfartalog ar gyfer cleifion sy'n cael cluniau a phengliniau newydd yn cyrraedd targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer y triniaethau hyn, ac eithrio llawdriniaethau i osod cluniau newydd yn Ysbyty Glan Clwyd. | |
| Cost fesul cyfnod claf preswyl | Mae cost gyfartalog cyfnod claf orthopedeg dewisol yn yr ysbyty yn y Bwrdd Iechyd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan, sef £4,280. | |
| Cost brosthetig fesul cyfnod claf preswyl | Cost gyfartalog prosthesisau fesul cyfnod yn y Bwrdd Iechyd yw'r isaf yng Nghymru, sef £269. | |
| Cost fesul claf allanol | Cost cleifion allanol orthopedeg dewisol yw'r uchaf yng Nghymru, sef £1,475. | |

| A yw hyd arhosiad cleifion mor fyr â phosibl? | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| Cost fesul diwrnod gwely claf preswyl | Cost diwrnod gwely claf preswyl dewisol yw'r uchaf yng Nghymru, sef £1,540. | |

| Apwyntiadau dilynol a chanlyniadau | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| **A yw cleifion yn cael apwyntiad dilynol?** | | |
| Apwyntiadau dilynol | Cafodd naw deg dau y cant o gleifion apwyntiad dilynol ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty yn dilyn llawdriniaeth i osod pen-glin newydd, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru gyfan. | |
| Trefnir apwyntiadau dilynol o fewn yr amserlenni a argymhellir | Roedd naw deg un y cant o gleifion wedi cael apwyntiad dilynol o fewn chwe wythnos a thri mis i gael eu rhyddhau, sy'n is na chyfartaledd Cymru gyfan. | |
| **A yw cymhlethdodau niweidiol yn cael eu hosgoi a'r manteision gorau posibl yn deillio o lawdriniaethau?** | | |
| Heintiau mewn Safleoedd Llawfeddygol (SSIs) ar gyfer llawdriniaethau i osod cluniau a phengliniau newydd | Mae cyfraddau SSIs ar gyfer cluniau a phen-gliniau yn amrywio o ysbyty i ysbyty yn y Bwrdd Iechyd, ond maent i gyd yn uwch na tharged sero y cant Llywodraeth Cymru. Mae'r cyfraddau yn arbennig o uchel yn Ysbyty Maelor Wrecsam, sef 3.4 y cant ar gyfer llawdriniaeth i osod cluniau newydd a 3.0 y cant ar gyfer llawdriniaeth i osod pengliniau newydd. | |
| Cyfraddau aildderbyn cleifion i'r ysbyty yn dilyn llawdriniaeth i osod cluniau a phengliniau newydd | Mae'r gyfradd aildderbyn cleifion yn dilyn llawdriniaeth ddewisol i osod clun newydd yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan. Mae'r gyfradd aildderbyn cleifion yn dilyn llawdriniaeth i osod pen-glin newydd yn cyd-fynd â chyfartaledd Cymru gyfan. | |

| Apwyntiadau dilynol a chanlyniadau | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| Cyfradd marwolaethau ar gyfer cleifion orthopedeg dewisol | Y gyfradd marwolaethau ar gyfer cleifion orthopedeg dewisol yn yr ysbyty yw'r uchaf ond un yng Nghymru, ond mae'r gyfradd marwolaethau o fewn 30 diwrnod i gleifion yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty yn is na chyfartaledd Cymru gyfan. | |
| Cyfraddau ail-wneud llawdriniaethau | Mae'r gyfradd ail-wneud llawdriniaethau i osod cluniau a phengliniau newydd yn amrywio ledled poblogaeth Betsi Cadwaladr, a'r cyfraddau ar gyfer poblogaeth Wrecsam yw'r isaf yng Nghymru. Mae'r gyfradd ail-wneud llawdriniaethau i osod pengliniau newydd yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan ar gyfer poblogaethau Sir Ddinbych a Gwynedd. | |
| Gwella symptomau | Dywedodd wyth deg pedwar y cant o gleifion y Bwrdd Iechyd fod eu symptomau wedi gwella. | |


# Rhan 1

## 1 Darpariaeth sylfaenol a chymunedol

### Darpariaeth gofal sylfaenol

1.1 Lleihaodd y Bwrdd Iechyd ei wariant gofal sylfaenol ar wasanaethau cyhyrysgerbydol 4.0 y cant rhwng 2010 a 2013 (Arddangosyn 3). Roedd gwariant y Bwrdd Iechyd fesul pen o'r boblogaeth ar wasanaethau gofal sylfaenol cyhyrysgerbydol (£11.60) ychydig yn is na chyfartaledd Cymru gyfan (Arddangosyn 3). Mae lefel y gwariant hwn yn debyg i wariant nifer o fyrddau iechyd eraill.

Arddangosyn 3: Gwariant cyllideb y rhaglen gyhyrysgerbydol ar ofal sylfaenol rhwng 2010 a 2013




Ffynhonnell: StatsCymru

1.2 Lleihaodd cyfran yr arian cyhyrysgerbydol a wariwyd ar ofal sylfaenol gan y Bwrdd Iechyd rhwng 2010-11 a 2011-12, ond cynyddodd ychydig y flwyddyn ganlynol i 9.9 y cant (Arddangosyn 4). Mae'r perfformiad wedi bod yn is na chyfartaledd Cymru gyfan yn gyson, gan gyrraedd yr isaf ond un yng Nghymru yn 2012-13. Byddai hyn yn awgrymu bod gwasanaethau cyhyrysgerbydol wedi canolbwyntio'n benodol ar ddarpariaeth gofal eilaidd o bosibl.

Arddangosyn 4: Cyfran cyllideb y rhaglen gyhyrysgerbydol a wariwyd ar ofal sylfaenol rhwng 2010-11 a 2012-13

| Bwrdd Iechyd | Canran cyllideb y rhaglen MSK a wariwyd ar ofal sylfaenol | | |
|---|---|---|---|
| | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 |
| Abertawe Bro Morgannwg | 11.3 | 9.8 | 10.8 |
| Aneurin Bevan | 10.2 | 10.2 | 9.7 |
| Betsi Cadwaladr | 10.7 | 9.3 | 9.9 |
| Caerdydd a'r Fro | 11.9 | 10.6 | 12.0 |
| Cwm Taf | 16.0 | 15.1 | 15.4 |
| Hywel Dda | 9.3 | 9.0 | 10.3 |
| Addysgu Powys | 9.9 | 14.0 | 17.1 |
| **Cymru Gyfan** | **11.1** | **10.4** | **11.2** |

Ffynhonnell: StatsCymru

1.3 Fel rhan o'n gwaith, aethom ati i adolygu lefel y mynediad uniongyrchol sydd gan feddygon teulu at wasanaethau sylfaenol a chymunedol eraill, a allai atal atgyfeiriad diangen i wasanaethau orthopedeg gofal eilaidd. Byddai hyn yn cynnwys gwasanaethau fel gwasanaethau poen cymunedol, rhaglenni hunanreoli, rhaglenni ffordd o fyw cymunedol, gwasanaethau ffisiotherapi cymunedol a gwasanaethau therapi ceiropractig. Dywedodd y Bwrdd Iechyd fod ganddo nifer o wasanaethau o'r fath sy'n cynnig mynediad uniongyrchol i feddygon teulu, ond mae amrywiaeth y gwasanaethau yn cymharu'n llai ffafriol â rhannau eraill o Gymru (Arddangosyn 5).

Arddangosyn 5: mynediad uniongyrchol meddygon teulu at wasanaethau sylfaenol a chymunedol

| | Abertawe Bro Morgannwg | Aneurin Bevan | Betsi Cadwaladr | Caerdydd a'r Fro | Cwm Taf | Hywel Dda | Powys |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffisiotherapi | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Ffisiotherapyddion rôl estynedig | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Gwasanaeth poen cymunedol | ✓ | | | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Meddyg teulu â diddordeb arbennig mewn cyflyrau/ cwynion orthopedeg | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | |
| Gwasanaethau gwell sy'n berthnasol i gyflyrau/cwynion orthopedeg | | Yn rhannol | | | | | |
| Mynediad gwell at ddiagnosteg | | ✓ | Yn rhannol | | | | ✓ |
| Therapi ceiropractig | | | | | | | |
| Rhaglenni ffordd o fyw/colli pwysau cymunedol | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Rhaglenni hunanreoli | ✓ | | | | | | |

Ffynhonnell: Arolwg o Fyrddau Iechyd Swyddfa Archwilio Cymru

1.4 Fel rhan o'n Harolwg o Gleifion sy'n cael Llawdriniaeth i Osod Pen-glin Newydd, gofynnwyd i gleifion a oeddent wedi derbyn amrywiaeth o ymyriadau amgen cyn cael y llawdriniaeth. Roedd cyfran uwch o gleifion wedi cael cyngor ffisiotherapi a rhaglenni ymarfer corff na chyfartaledd Cymru gyfan, sy'n gadarnhaol. Roedd nifer yr ymyriadau eraill ar gyfer cleifion, fel cyngor ar reoli pwysau a lleddfu poen yn is na chyfartaledd Cymru gyfan (Arddangosyn 6).

Arddangosyn 6: Canran y cleifion a dderbyniodd ymyriad amgen cyn cael llawdriniaeth i osod pen-glin newydd


| | Betsi Cadwaladr | Cyfartaledd Cymru gyfan |
|---|---|---|
| Canran y cleifion a gafodd ymyriad lleddfu poen cyn y llawdriniaeth | 71.4 | 74.9 |
| Canran y cleifion a gafodd gyngor neu driniaeth ffisiotherapi cyn y llawdriniaeth | 30.2 | 26.1 |
| Canran y cleifion a gafodd raglen ymarfer corff cyn y llawdriniaeth | 28.6 | 23.4 |
| Canran y cleifion a gafodd gyngor ar reoli pwysau cyn y llawdriniaeth | 7.9 | 9.1 |

Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion a Gafodd Lawdriniaeth i Osod Pen-glin Newydd

## Atgyfeiriadau gan Feddygon Teulu

1.5 Roedd cyfradd yr atgyfeiriadau gan feddygon teulu ym maes orthopedeg fesul 100,000 o’r boblogaeth yn y Bwrdd Iechyd ymysg yr isaf yng Nghymru yn 2012-13. Ac eithrio Sir y Fflint a Wrecsam, mae cyfradd y trigolion 65 oed a hŷn yn nalgylchoedd eraill y Bwrdd Iechyd ymysg yr uchaf yng Nghymru. Cyfran trigolion Conwy 65 oed a throsodd (25.7 y cant) yw’r uchaf yng Nghymru. Mae oedran y boblogaeth yn ffactor sy’n cyfrannu at gyfraddau atgyfeirio orthopedeg ledled Cymru, ond mae’r gyfradd atgyfeirio is na’r cyfartaledd yn awgrymu bod y Bwrdd Iechyd wedi bod yn rheoli’r galw am wasanaethau orthopedeg. Mae cyfradd yr atgyfeiriadau wedi cynyddu erbyn hyn, ond mae’n parhau i fod yn is na chyfartaledd Cymru (Arddangosyn 7).


Arddangosyn 7: Atgyfeiriadau gan feddygon teulu fesul 100,000 o'r boblogaeth 2012-2014




Ffynhonnell: StatsCymru

1.6 Yn y gorffennol, roedd y Bwrdd Iechyd yn derbyn 1,100 o atgyfeiriadau gan feddygon teulu fesul mis calendr ar gyfartaledd. Rhwng mis Ebrill 2013 a mis Mawrth 2015, cynyddodd nifer yr atgyfeiriadau gan feddygon teulu ym maes orthopedeg i 1,300 o atgyfeiriadau fesul mis calendr ar gyfartaledd (Arddangosyn 8). Y rheswm tebygol am hyn yw bod cleifion a atgyfeiriwyd o'r blaen i ymddiriedolaethau'r GIG cyfagos yn Lloegr wedi dychwelyd i'r Bwrdd Iechyd.

Arddangosyn 8: Nifer yr atgyfeiriadau gan feddygon teulu a dderbyniwyd rhwng Ebrill 2012 a Mawrth 2015




Ffynhonnell: StatsCymru

## Gwasanaethau asesu a thriniaeth cyhyrysgerbydol cymunedol

1.7 Cyflwynodd Llywodraeth Cymru gysyniad CMATS yn 2012. Amcan CMATS oedd darparu man cyswllt cyntaf ar gyfer atgyfeiriadau gan feddygon teulu ar gyfer asesu a thrin poen a chyflyrau cyhyrysgerbydol er mwyn sicrhau atgyfeiriadau cywir i wasanaethau orthopedeg gofal eilaidd. Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd CMATS ym mis Rhagfyr 2012 yn ei dair ardal. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ganllawiau clir ar sut y dylai CMATS weithredu. Mae cydymffurfiaeth leol ag egwyddorion allweddol canllawiau Llywodraeth Cymru yn gadarnhaol (Arddangosyn 9).


Arddangosyn 9: Cydymffurfiaeth ag egwyddorion allweddol canllawiau Llywodraeth Cymru ar CMATS

| Egwyddor | Cydymffurfiaeth y bwrdd iechyd hwn | Nifer y byrddau iechyd ledled Cymru sy'n cydymffurfio |
|---|---|---|
| Clinigau sy'n cael eu cynnal mewn cyfuniad o ganolfannau lleol a gofal eilaidd | ✓ | Pob un ac eithrio Aneurin Bevan a Chwm Taf |
| Bydd pob atgyfeiriad cyhyrysgerbydol (ac eithrio eithriadau penodol) yn mynd i'r CMATS | ✓ | Tri (Abertawe Bro Morgannwg, Betsi Cadwaladr a Chwm Taf) |
| Mae gan staff fynediad uniongyrchol at wasanaethau diagnosteg | ✓ | Pob un ac eithrio Powys |
| **Mae'r gwasanaeth yn cynnwys:** | | |
| Ffisiotherapyddion ymarfer uwch | ✓ | Pob un |
| Podiatryddion ymarfer uwch | ✓ | Pob un ac eithrio Abertawe Bro Morgannwg a Chaerdydd a'r Fro |
| Meddygon teulu â gwybodaeth, sgiliau a diddordeb mewn cyflyrau/problemau cyhyrysgerbydol | ✓ (Arweinydd: meddyg teulu â diddordeb arbenigol yn y dwyrain, ond cyfraniad gan feddygon ymgynghorol yn y gorllewin a'r ardal ganolog) | Pedwar (Abertawe Bro Morgannwg, Aneurin Bevan, Betsi Cadwaladr a Chaerdydd a'r Fro) |

Ffynhonnell: Arolwg o Fyrddau Iechyd Swyddfa Archwilio Cymru

1.8 Mae lefelau staffio ar gyfer y CMATS yn y Bwrdd Iechyd yn is na'r rhan fwyaf o dimau ledled Cymru (Arddangosyn 10). Mae CMATS y Bwrdd Iechyd yn borth i bob atgyfeiriad, felly bydd o dan bwysau ychwanegol o gymharu â gwasanaethau sydd â lefelau staffio uwch fel Powys a Hywel Dda, lle y gall atgyfeiriadau gael eu gwneud drwy lwybrau eraill hefyd. Bydd cyfradd gynyddol yr atgyfeiriadau yn rhoi pwysau ychwanegol ar y timau hefyd.

Arddangosyn 10: lefelau staffio CMATS




Ffynhonnell: Arolwg o Fyrddau Iechyd Swyddfa Archwilio Cymru

1.9 Un o egwyddorion CMATS yw asesu, gwneud diagnosis a thrin cleifion y mae eu triniaeth yn berthnasol i arbenigwyr CMATS a lle y credir bod modd gweld a thrin y claf mewn dim mwy na dau ymweliad (‘asesiadau wyneb yn wyneb’). Dylai cleifion sydd angen triniaeth fwy dwys gael eu hatgyfeirio i wasanaethau mwy priodol wrth y pwynt cyfeirio. Yn ôl data a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd, cafodd 12.6 y cant o gleifion a atgyfeiriwyd asesiad wyneb yn wyneb. Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, nid yw amseroedd aros i weld CMATS ar gyfer asesiad wyneb yn wyneb yn cael eu cynnwys yn y llwybr rhwng atgyfeirio a thriniaeth. Fodd bynnag, y cyfnod aros cyfartalog rhwng atgyfeiriad ac asesiad CMATS wyneb yn wyneb yn y Bwrdd Iechyd yw 12 wythnos yn y dwyrain a’r gorllewin ac 14 wythnos yn yr ardal ganolog. Nid yw’r perfformiad hwn yn cyrraedd targed wyth wythnos Llywodraeth Cymru.

1.10 Yn ôl data a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd, atgyfeiriwyd 43 y cant o’r holl atgyfeiriadau drwy CMATS i wasanaethau orthopedeg gofal eilaidd. Mae hyn yn gadarnhaol oherwydd ei bod yn golygu bod 57 y cant wedi’u hatgyfeirio i rywle arall. Fodd bynnag, mae angen rhywfaint o ofal wrth ystyried y perfformiad hwn gan fod cyfraddau atgyfeirio yn awgrymu bod y galw am wasanaethau orthopedeg yn parhau i gynyddu. Gall cyflwyno CMATS greu galw newydd nad oedd yn bodoli o’r blaen o bosibl, ac felly mae’n bosibl na fyddai rhai o’r atgyfeiriadau a dderbyniwyd gan CMATS wedi’u hatgyfeirio i’r maes orthopedeg pe na bai’r gwasanaeth ar waith.


# Rhan 2

## 2 Cleifion allanol a gwasanaethau diagnostig

### Gwasanaethau i gleifion allanol

2.1 Er mwyn cyrraedd targed Llywodraeth Cymru o drin 95 y cant o gleifion o fewn 26 wythnos i'w hatgyfeirio, dylai byrddau iechyd fod yn gweithio ar sail targed mewnol o rhwng 12 a 14 wythnos ar gyfer apwyntiad cyntaf cleifion allanol. Ni wnaeth y Bwrdd Iechyd adrodd ar ei darged mewnol. Mae canran y cleifion sy'n aros dros 26 wythnos am eu hapwyntiad claf allanol cyntaf yn y Bwrdd Iechyd wedi amrywio dros y tair blynedd diwethaf, ac mae perfformiad ers mis Awst 2013 yn uwch na pherfformiad Cymru gyfan. Ym mis Ionawr 2015, roedd 19.7 y cant o gleifion yn aros dros 26 wythnos (Arddangosyn 11). Mae hyn yn awgrymu nad yw capasiti cleifion allanol wedi ateb y galw.


Arddangosyn 11: Canran y cleifion sy'n aros dros 26 wythnos am apwyntiad claf allanol cyntaf




Ffynhonnell: Uned Gyflenwi Llywodraeth Cymru

2.2 Mae’r gallu i fodloni gofynion cleifion allanol yn dibynnu ar lefelau staffio meddygol byrddau iechyd. O safbwynt capasiti meddygon ymgynghorol, mae hefyd yn bwysig ystyried a oes cydbwysedd priodol ym mhob cynllun swydd unigol rhwng sesiynau gofal clinigol uniongyrchol cleifion allanol a theatrau. Mae nifer y meddygon ymgynghorol fesul 1,000 o atgyfeiriadau yn debyg iawn i gyfartaledd Cymru gyfan (Arddangosyn 12). Mae nifer y sesiynau meddygon ymgynghorol ar gyfer gweithgarwch cleifion allanol yn uwch na’r cyfartaledd, a’r uchaf ond un yng Nghymru (Arddangosyn 12). Felly, mae’r Bwrdd Iechyd yn darparu lefel uwch o gyfraniad gan feddygon ymgynghorol yn y rhyngwyneb â chleifion na’r rhan fwyaf o fyrddau iechyd eraill yng Nghymru.

Arddangosyn 12: Staffio meddygon ymgynghorol a sesiynau cleifion allanol fesul 1,000 o atgyfeiriadau ar gyfer 2013-14




Ffynhonnell: StatsCymru ac Arolwg o Fyrddau Iechyd Swyddfa Archwilio Cymru

2.3 Ar ôl cynllunio sesiynau i gleifion allanol, mae’n bwysig eu cynnal wedyn gan fod canslo clinigau yn creu pwysau ychwanegol ar y system oherwydd bod rheidrwydd o hyd ar y Bwrdd Iechyd i drin cleifion o fewn 26 wythnos. Dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym fod cyfradd y clinigau i gleifion allanol a ganslwyd yn 2012-13 yn amrywio rhwng 2.8 ac 8.8 y cant. Mae llawer o fyrddau iechyd eraill yn methu cyflwyno’r data hwn ar gyfer clinigau orthopedeg.


2.4 Mae clinigau'n cynnwys amrywiaeth o apwyntiadau newydd a dilynol ar sail galw am y gwasanaeth. Mae'n bosibl y bydd angen apwyntiad dilynol ar rai cleifion cyn y gall gweithwyr proffesiynol wneud penderfyniad clinigol, ond i gleifion eraill, mae un apwyntiad claf allanol yn ddigon. Nid oes angen i rai cleifion sydd angen apwyntiadau dilynol gael eu gweld gan feddyg neu mewn ysbyty o reidrwydd. Felly, dim ond os oes angen i gleifion ddychwelyd y dylid gofyn iddynt wneud hynny, gan sicrhau eu bod yn mynd i'r lleoliad priodol. Bydd hyn yn helpu i osgoi apwyntiadau dilynol diangen, a all ddisodli cleifion sydd angen apwyntiadau cyntaf ar frys.

2.5 Ar gyfer y cyfnod 2013-14, roedd y gymhareb o apwyntiadau dilynol i apwyntiadau newydd yn y Bwrdd Iechyd yn is na chyfartaledd Cymru gyfan, sef 1.94 apwyntiad dilynol i bob apwyntiad newydd. Fodd bynnag, roedd hyn yn uwch na tharged blaenorol Llywodraeth Cymru (1.9).

2.6 Gall newidiadau mewn darpariaeth gwasanaethau i gleifion allanol helpu i leihau sawl gwaith y mae'n rhaid i gleifion fynd i'r ysbyty. Gallai hyn gynnwys clinigau poeth, neu glinigau rhithwir, sy'n defnyddio technoleg fodern i gynnal ymgynghoriadau meddygol i gleifion. Yn ein harolwg o gleifion a gafodd lawdriniaeth i osod pen-glin newydd, roedd dros 92 y cant o gleifion o'r farn fod y Bwrdd Iechyd wedi ceisio cydgysylltu nifer eu hymweliadau. Mae'r ymateb hwn yn cymharu'n ffafriol â'r ymateb cyffredinol ledled Cymru (88 y cant).

2.7 Gall cyfradd y cleifion na fynychodd apwyntiadau a'r gyfradd a ganslodd apwyntiadau ddangos a yw apwyntiadau yn briodol. Mae cyfradd y cleifion na fynychodd apwyntiadau newydd (7.2 y cant) o fewn cyfartaledd Cymru gyfan ond y gyfradd ar gyfer apwyntiadau dilynol cleifion allanol yw'r uchaf ond un yng Nghymru (9.4 y cant). Nid yw'r perfformiad hwn yn cyrraedd targed Llywodraeth Cymru ar gyfer apwyntiadau newydd (pump y cant) ac apwyntiadau dilynol (saith y cant), sy'n dangos bod modd gwella effeithlonrwydd yn y system (Arddangosyn 13). Ni wnaeth y Bwrdd Iechyd ddarparu gwybodaeth i ni am gyfraddau'r apwyntiadau newydd neu ddilynol a ganslwyd gan gleifion. Ni allai rhai byrddau iechyd eraill ddarparu gwybodaeth am gyfraddau'r apwyntiadau a ganslwyd gan gleifion.


Arddangosyn 13: Cyfraddau cleifion allanol na fynychodd apwyntiadau newydd ac apwyntiadau dilynol 2013-14




Ffynhonnell: StatsCymru

2.8 Drwy ddefnyddio gwybodaeth ariannol a gyflwynir gan y Bwrdd Iechyd i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn, nodwyd bod cost derbyniadau cleifion allanol orthopedeg yn y Bwrdd Iechyd (£142.15) yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan yn 2011-12 (Arddangosyn 14), a'r uchaf ond un yng Nghymru. Bydd lefel y gweithgarwch yn yr adrannau cleifion allanol yn effeithio ar gost derbyn cleifion allanol, ynghyd â chyfran uwch o dderbyniadau newydd, er y bydd costau eraill sy'n gysylltiedig â staff a chyfarpar yn ffactorau pwysig hefyd.

Arddangosyn 14: Cost derbyn cleifion orthopedeg allanol yn 2010-11 a 2011-12





Ffynhonnell: Ffurflenni costau Cymru

## Gwasanaethau ffisiotherapi

2.9 Yn gyffredinol, mae cleifion sydd angen ffisiotherapi i drin problemau cyhyrysgerbydol yn cael eu gweld yn gyflymach yn y Bwrdd Iechyd o gymharu â rhannau eraill o Gymru. Rhwng mis Ionawr 2014 a mis Chwefror 2015, roedd 86.2 y cant o gleifion yn aros llai nag wyth wythnos ar gyfartaledd, o gymharu â pherfformiad Cymru gyfan, sef 82.3 y cant (Arddangosyn 15).

2.10 Yn ôl targed Llywodraeth Cymru, ni ddylai unrhyw glaf aros mwy nag 14 wythnos ar gyfer gwasanaethau therapi. Mae perfformiad y Bwrdd Iechyd yn y cyswllt hwn wedi bod yn dda yn gyffredinol, er i nifer o gleifion yn Ysbyty Maelor Wrecsam wynebu oedi yn ystod rhan gyntaf 2013 (Arddangosyn 15). Gwaethygodd y sefyllfa o ran cyfnodau aros yn Ysbyty Maelor Wrecsam yn dilyn penderfyniad i arallgyfeirio adnoddau er mwyn ymateb i'r galw am wasanaethau ffisiotherapi i gleifion preswyl. Mae'r mater hwn wedi'i ddatrys, gydag ychydig iawn o gleifion, os o gwbl, yn aros mwy nag 14 wythnos ers mis Awst 2013.

Arddangosyn15: Amseroedd aros ar gyfer ffisiotherapi (oedolion)





Ffynhonnell: StatsCymru

2.11 Mae gwasanaethau ffisiotherapi ar gyfer cleifion allanol yn cael eu darparu mewn amrywiaeth eang o leoliadau ledled y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys meddygfeydd teulu, sy'n enghraifft o arfer da. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno gwasanaeth hunangyfeirio, sy'n galluogi cleifion i gysylltu â'r adran ffisiotherapi yn uniongyrchol. Mae hyn yn lleihau'r angen i gleifion gael eu gweld gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall cyn cael eu hatgyfeirio. Lle mae cynlluniau hunangyfeirio wedi'u sefydlu mewn byrddau iechyd eraill, mae rhai gwasanaethau ffisiotherapi yn cynnig rhif ffôn cyswllt hefyd ar gyfer cyngor cyn gwneud atgyfeiriad. Mae hyn yn rhoi cyfle i gyfeirio cleifion i wasanaethau eraill mwy priodol ac yn lleihau rhai cyfnodau aros diangen. Yn yr un modd â gweddill Cymru, mae gwasanaethau ffisiotherapi yn parhau i gael eu darparu fel gwasanaeth pum diwrnod traddodiadol yn ystod yr wythnos waith gan amlaf.

## Gwasanaethau radioleg

2.12 Bydd angen i gleifion â phroblemau cyhyrysgerbydol gael profion radiolegol gan amlaf. Roedd mynediad at brofion radioleg o bob math yn dilyn cais gan feddygon teulu a meddygon ymgynghorol yn y Bwrdd Iechyd yn waeth na chyfartaledd Cymru gyfan tan 2013 (Arddangosyn 16). Ers hynny, mae perfformiad y Bwrdd Iechyd wedi gwella, ac mae cyfnodau aros ar gyfer profion radioleg yn dilyn cais gan feddygon teulu a meddygon ymgynghorol wedi bod yn well na chyfartaledd Cymru gyfan ers mis Awst 2013.

Arddangosyn16: Canran y cleifion sy'n aros dros wyth wythnos am brofion radioleg




Ffynhonnell: StatsCymru

2.13 Ledled Cymru yn 2013-14, roedd 23 y cant o'r holl geisiadau am brofion radioleg yn dilyn atgyfeiriadau gan feddyg teulu a 39 y cant o'r holl geisiadau am brofion radioleg yn dilyn atgyfeiriadau gan feddygon ymgynghorol yn geisiadau am sganiau MRI. Mae cyfraddau'r atgyfeiriadau MRI yn y Bwrdd Iechyd yn is, sef 15 y cant o'r holl geisiadau am brofion radioleg yn dilyn atgyfeiriadau gan feddygon teulu a 36 y cant o'r holl geisiadau am brofion radioleg yn dilyn atgyfeiriadau gan feddygon ymgynghorol. Mae'r patrwm atgyfeiriadau yn amrywio yn sylweddol rhwng y tri phrif safle ysbyty (Arddangosyn 17).


Arddangosyn 17: Cyfran y ceisiadau radioleg am sganiau MRI

| Safle ysbyty | Cyfran yr atgyfeiriadau gan feddygon teulu am sganiau MRI | Cyfran yr atgyfeiriadau gan feddygon ymgynghorol am sganiau MRI |
|---|---|---|
| Ysbyty Glan Clwyd | 2 | 44 |
| Ysbyty Gwynedd | 2 | 36 |
| Ysbyty Maelor Wrecsam | 28 | 37 |
| **Cyfartaledd Cymru gyfan** | **23** | **39** |

Ffynhonnell: StatsCymru

2.14 Gall y cynnydd yn y galw, yn enwedig am sganiau MRI yn dilyn atgyfeiriad gan feddyg teulu, roi pwysau ar adrannau radioleg byrddau iechyd. Mae amseroedd aros am sganiau MRI wedi amrywio’n sylweddol rhwng 2010 a 2015, ac roedd perfformiad hyd at fis Hydref 2012 yn waeth na pherfformiad Cymru gyfan gan amlaf. Ers mis Hydref 2012, mae cyfnodau aros am sganiau MRI yn dilyn atgyfeiriad gan feddyg teulu wedi bod yn debyg iawn i berfformiad Cymru gyfan, er bod y perfformiad yn parhau i fod yn uchel. Ym mis Chwefror 2015, roedd 22 y cant o gleifion a atgyfeiriwyd am sgan MRI gan eu meddyg teulu wedi aros mwy nag wyth wythnos (Arddangosyn 18). Roedd cyfnodau aros am sganiau MRI yn dilyn atgyfeiriad gan feddyg ymgynghorol wedi bod yn uwch na pherfformiad Cymru gyfan hyd at fis Mehefin 2013 pan oedd y perfformiad yn waeth na pherfformiad Cymru gyfan. Ym mis Chwefror 2015, roedd 20 y cant o gleifion a atgyfeiriwyd gan eu meddyg ymgynghorol wedi aros mwy nag wyth wythnos (Arddangosyn 18).

Arddangosyn 18: Canran y cleifion sy'n aros dros wyth wythnos am sgan MRI




Ffynhonnell: StatsCymru

# Rhan 3

## 3 Gwasanaethau i gleifion preswyl

### Aros a pharatoi i fynd i’r ysbyty

3.1 Ar ôl i’r clinigydd benderfynu mai ymyriad llawfeddygol yw’r dull mwyaf priodol o fynd i’r afael â phroblemau cyhyrysgerbydol, dylai’r Bwrdd Iechyd gynnwys enw’r claf ar y rhestr a threfnu dyddiad ar gyfer asesiad cyn y llawdriniaeth i sicrhau bod y claf yn iach yn glinigol. Mae trefniadau asesu cyn llawdriniaeth ar waith ledled y Bwrdd Iechyd, er bod darpariaeth y gwasanaethau hyn yn amrywio (Arddangosyn 19).

Arddangosyn 19: Trefniadau asesu cyn llawdriniaeth


| | Ysbyty Glan Clwyd | Ysbyty Gwynedd | Ysbyty Maelor Wrecsam |
|---|---|---|---|
| Adran bwrpasol | ✓ | ✓ | ✓(POAC yn y prif mewn adrannau cleifion allanol) |
| Dan arweiniad nyrs | × | ✓ | ✓ |
| Ar gael pum diwrnod yr wythnos | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gwasanaeth orthopedeg penodol | × | × | × |
| Cydgysylltu trefnu apwyntiadau | Ysgrifenyddesau meddygol | Ysgrifenyddesau meddygol | Canolfan apwyntiadau |

Ffynhonnell: Arolwg o Fyrddau Iechyd Swyddfa Archwilio Cymru

3.2 Yn ôl ein harolwg o gleifion a gafodd lawdriniaeth i osod pen-glin newydd, roedd pob un o’r cleifion wedi cael asesiad cyn y llawdriniaeth cyn cael eu derbyn. Dylid rhoi rhybudd rhesymol cyn cwblhau asesiadau cyn llawdriniaeth er mwyn lleihau achosion o ganslo asesiadau yn annisgwyl os oes angen ymyriad arall ar glaf cyn y llawdriniaeth. Yn y Bwrdd Iechyd, cafodd 73 y cant o gleifion eu hasesiad dros dair wythnos cyn cael eu derbyn i’r ysbyty.

3.3 Wrth roi enw claf ar y rhestr, mae'n bwysig ystyried manteision y llawdriniaeth ac osgoi rhoi triniaethau sydd ag effeithiolrwydd clinigol cyfyngedig yn ôl y gwaith ymchwil [1]. Ar gyfer y cyfnod 2012-13, nodwyd bod cyfradd y triniaethau ag effeithiolrwydd clinigol cyfyngedig yn isel yng Ngwynedd, ond ni nodwyd y cyfraddau yn ardaloedd y pum awdurdod arall ledled y Gogledd (Arddangosyn 20).

Arddangosyn 20: Cyfradd y triniaethau ag effeithiolrwydd clinigol cyfyngedig fesul 100,000 o'r boblogaeth 2012-13





Ffynhonnell: Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru

---

[1] Mae'r triniaethau a adolygwyd yn cynnwys datgywasgu ar y meingefn, torri disg rhyngfertebrol, uno cymal arall y meingefn, dileu nam ar y meingefn, biopsi o'r meingefn, dadnerfogi cymal ffased meingefn fertebra ac archwilio'r meingefn.

3.4 Wrth roi enw claf ar y rhestr, mae hefyd yn bwysig ystyried y posibilrwydd o'i drin fel claf allanol er mwyn osgoi ei gadw yn yr ysbyty yn ddiangen. Mae'r BADS wedi argymell nifer o driniaethau orthopedeg sy'n addas ar gyfer cleifion allanol. Yn y gorffennol roedd y rhain yn rhan o fframwaith rheoli perfformiad Llywodraeth Cymru, gyda tharged o 80 y cant. Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2012-13, roedd canran y triniaethau orthopedeg a argymhellir a gwblhawyd ar gyfer cleifion allanol yn nhri o ysbytai'r Bwrdd Iechyd wedi rhagori ar darged Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, roedd perfformiad Ysbyty Maelor Wrecsam yn is na'r targed a chyfartaledd Cymru gyfan, a pherfformiad Ysbyty Glan Clwyd (dim ond 37 y cant) oedd yr isaf o blith holl ysbytai'r GIG yng Nghymru (Arddangosyn 21).

Arddangosyn 21: Canran y triniaethau orthopedeg a argymhellwyd gan BADS a gwblhawyd ar gyfer cleifion allanol 2012-13





Ffynhonnell: Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru

Noder: Mae cyfleusterau ysbytai preifat a gwblhaodd waith ar ran y GIG wedi eu cynnwys.

3.5 Er mwyn sicrhau bod y canlyniad gorau posibl i gleifion yn deillio o ymyriad llawfeddygol, mae byrddau iechyd wedi mabwysiadu rhaglen Adferiad Gwell Ar ôl Llawdriniaeth. Mae hyn yn cynnwys sefydlu 'ysgol cymalau' i ddarparu sesiynau addysgol i gleifion sydd ar fin cael llawdriniaeth i osod clun neu ben-glin newydd. Mae'r gefnogaeth yn cynnwys cyfle i gleifion ymarfer ymarferion a thechnegau ffisiotherapi a fydd yn helpu cleifion i wella yn gynt ar ôl llawdriniaeth. Cynhelir yr 'ysgol ar y cyd' cyn derbyn claf i ysbyty, ac mae'r gwaith ymchwil yn dangos bod egwyddor yr 'ysgol ar y cyd' yn helpu'r claf i wella yn gynt ar ôl llawdriniaeth a'i helpu i aros yn yr ysbyty am lai o amser. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu tair 'ysgol ar y cyd', un ym mhob un o'i brif ysbytai cyffredinol dosbarth.

3.6 Mae canran y cleifion sy'n aros dros 26 wythnos i gael eu derbyn fel cleifion preswyl neu gleifion allanol wedi bod yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan ers mis Mai 2013 (Arddangosyn 22). Ym mis Ionawr 2015, roedd 44 y cant o gleifion yn aros dros 26 wythnos i gael eu derbyn, o gymharu â chyfartaledd o 40 y cant ledled Cymru. Bydd yr amseroedd aros hirach ar gyfer apwyntiadau cleifion allanol, a'r cyfnod yn aros am brofion diagnosteg, yn effeithio ar allu'r Bwrdd Iechyd i drin y rhai sydd angen eu derbyn i'r ysbyty o fewn 26 wythnos. Gall lefel uchel o fewnbwn meddygon ymgynghorol i sesiynau cleifion allanol arwain at oedi cyn derbyn cleifion hefyd, oherwydd capasiti llai ar gyfer sesiynau meddygon ymgynghorol ar restri theatrau.

Arddangosyn 22: Canran y cleifion yn aros dros 26 wythnos i gael eu derbyn fel cleifion preswyl neu gleifion allanol rhwng mis Ebrill 2012 a mis Ionawr 2015





Ffynhonnell: Uned Gyflawni Llywodraeth Cymru

## Derbyniadau

3.7 Er mwyn osgoi unrhyw gyfnodau aros dros nos diangen yn yr ysbyty a manteisio'n llawn ar nifer y gwelyau sydd ar gael, mae'n arfer da derbyn cleifion ar ddiwrnod eu llawdriniaeth. Yn ôl targed Llywodraeth Cymru, dylai o leiaf 64 y cant o gleifion gael eu derbyn i'r ysbyty ar ddiwrnod eu llawdriniaeth. Mae perfformiad yn erbyn y targed hwn yn gadarnhaol ym mhrif ysbytai'r Bwrdd Iechyd ac eithrio Ysbyty Gwynedd, ble mae llai na hanner y cleifion yn cael eu derbyn ar yr un diwrnod (Arddangosyn 23).

Arddangosyn 23: Canran y cleifion orthopedeg dewisol a dderbyniwyd ar ddiwrnod eu llawdriniaeth 2012-13




Ffynhonnell: Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru

3.8 Mae gan y Bwrdd Iechyd wardiau pwrpasol ar gyfer gweithgarwch orthopedeg dewisol, er bod rhai wardiau yn cynnwys nifer o welyau ar gyfer achosion trawma orthopedeg hefyd. Mae nifer y gwelyau trawma ac orthopedeg sydd ar gael wedi lleihau 11 y cant dros y pedair blynedd diwethaf, ac roedd cyfartaledd o 163 gwely ar gael bob dydd yn 2013-14. Mae cyfradd defnyddio'r gwelyau hyn wedi cynyddu ychydig o 69.6 y cant yn 2010-11 74.3 y cant yn 2013-14, o gymharu â chyfradd defnyddio gwelyau optimaidd o 85 y cant. Mae hyn yn awgrymu bod yna gyfleoedd i gynyddu llif cleifion neu leihau faint o welyau sydd ar gael. Mae'r sefyllfa yn amrywio mewn ysbytai gwahanol, ac Ysbyty Glan Clwyd sydd â'r gyfradd defnyddio gwelyau uchaf (95.5 y cant) o gymharu â 32.4 y cant yn Ysbyty Abergele (Arddangosyn 24).

Arddangosyn 24: Nifer y gwelyau sydd ar gael a chyfraddau defnyddio gwelyau 2013-14

| | Gwelyau sydd ar gael | Cyfradd defnyddio gwelyau (%) |
|---|---|---|
| Ysbyty Abergele | 24.0 | 32.4 |
| Ysbyty Maelor Wrecsam | 50.7 | 76.0 |
| Ysbyty Glan Clwyd | 34.9 | 95.5 |
| Ysbyty Gwynedd | 53.5 | 77.7 |

Ffynhonnell: StatsCymru

## Aros yn yr ysbyty

3.9 Mae theatrau llawdriniaeth yn rhan bwysig o arhosiad claf orthopedeg dewisol mewn ysbyty, a gall oedi neu ganslo llawdriniaeth arwain at brofiad gwael i gleifion a defnydd aneffeithlon o adnoddau. Gall canslo llawdriniaeth ar ddiwrnod y llawdriniaeth hefyd arwain at danddefnyddio capasiti theatrau. Darparodd y Bwrdd Iechyd wybodaeth gynhwysfawr am ddefnydd ei theatrau orthopedeg ar gyfer cleifion allanol a chleifion preswyl. Dros gyfnod o dri mis rhwng Ionawr 2013 a Mawrth 2013, defnyddiwyd rhwng 67 a 106 y cant o gapasiti theatrau a oedd ar gael (Arddangosyn 25). Mae hwn yn berfformiad cryf, ond nid yw pob safle yn cyrraedd targed 95 y cant Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, gall gorddefnyddio capasiti theatrau heb gynllunio ymlaen llaw roi pwysau ar theatrau hefyd oherwydd gall rhestri theatrau fod yn rhedeg yn hwyr, gan arwain at ganslo llawdriniaethau cleifion ar restri eraill neu gleifion yn gorfod aros dros nos gan fod triniaethau wedi'u cwblhau yn hwyr yn y dydd. Ni chawsom wybodaeth am berfformiad defnyddio theatrau gan bob bwrdd iechyd, felly nid oedd modd gwneud cymhariaeth.

Arddangosyn 25: Defnyddio theatrau

| | Ionawr 2013 | Chwefror 2013 | Mawrth 2013 |
|---|---|---|---|
| Ysbyty Abergele | 94% | 91% | 88% |
| Ysbyty Llandudno | 84% | 97% | 95% |
| Maelor Wrecsam – theatrau dydd | 67% | 91% | 71% |
| Maelor Wrecsam – prif theatrau | 93% | 96% | 93% |
| Ysbyty Glan Clwyd | 99% | – | 86% |
| Ysbyty Gwynedd | 102% | 106% | 98% |

Ffynhonnell: Arolwg o Fyrddau Iechyd Swyddfa Archwilio Cymru


3.10 Roedd cyfradd y sesiynau theatr orthopedig a ganslwyd gan y Bwrdd Iechyd yn 2012-13 yn amrywio'n sylweddol rhwng 0.7 y cant yn y gorllewin a 27.9 y cant yn y dwyrain. O safbwynt yr holl sesiynau a gynhaliwyd, mae cyfradd y llawdriniaethau i gleifion preswyl a ganslwyd gan y Bwrdd Iechyd yn ystod y cyfnod hwn yn amrywio hefyd. Perfformiad cyfunol ysbytai'r gorllewin oedd 10.1 y cant, o gymharu â pherfformiad cyfunol o 13.4 y cant yn yr ysbytai canolog a 21.4 y cant yn Ysbyty Maelor Wrecsam. Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu targed o ddau y cant ar gyfer llawdriniaethau sy'n cael eu canslo ar ddiwrnod y llawdriniaeth. Er nad yw cyfradd y llawdriniaethau sy'n cael eu canslo ar gyfer y Bwrdd Iechyd yn gyfyngedig i lawdriniaethau sy'n cael eu canslo ar y diwrnod, mae angen archwilio'r cyfraddau uwch i ddeall pam y mae apwyntiadau yn cael eu canslo. Nid oedd pob bwrdd iechyd yn gallu adrodd ar gyfraddau canslo llawdriniaethau, felly nid oedd modd gwneud cymhariaeth.

## Rhyddhau cleifion

3.11 Hyd arhosiad cyfartalog claf orthopedeg dewisol yn y Bwrdd Iechyd yw 3.4 diwrnod, sy'n is na tharged pedwar diwrnod Llywodraeth Cymru. Mae perfformiad pum ysbyty'r Bwrdd Iechyd yn amrywio, ond maent i gyd yn cyrraedd targed Llywodraeth Cymru. Ysbyty Cyffredinol Llandudno sydd â'r hyd arhosiad cyfartalog byrraf (1.0 diwrnod), ac Ysbyty Glan Clwyd sydd â'r hyd arhosiad cyfartalog hiraf (3.7 diwrnod).

3.12 Mae'r hyd arhosiad cyfartalog ar gyfer cleifion sy'n cael llawdriniaeth i osod clun a phen-glin newydd yn cyrraedd targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer y triniaethau hyn (Arddangosyn 26), ac eithrio llawdriniaeth i osod cluniau newydd yn Ysbyty Glan Clwyd. Hyd arhosiad cyfartalog ar gyfer llawdriniaeth i osod clun newydd yn Ysbyty Glan Clwyd yw 6.4 diwrnod, sydd ychydig dros darged 6.1 diwrnod Llywodraeth Cymru. Mae'r rhan fwyaf o lawdriniaethau i osod cymalau newydd yn yr ardal ganolog yn cael eu cwblhau yn Ysbyty Abergele, felly mae'n debygol bod hyd arhosiad yn Ysbyty Glan Clwyd yn adlewyrchu mwy o gleifion cymhleth na ellir rhoi llawdriniaeth iddynt yn Ysbyty Abergele oherwydd prinder cyfleusterau gofal critigol.

Arddangosyn 26: Hyd arhosiad cyfartalog ar gyfer llawdriniaethau dewisol i osod clun a phen-glin newydd rhwng Ebrill 2012 a Hydref 2013





Ffynhonnell: Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru

3.13 Cost gyfartalog cyfnod claf orthopedeg dewisol yn yr ysbyty yn y Bwrdd Iechyd yn 2012-13 oedd £4,280, sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan – £4,239. Hyd arhosiad claf yw prif sbardun y gost hon fel arfer, ond mae costau eraill sy'n gysylltiedig â staff a chyfarpar yn ffactorau pwysig. O ystyried bod hyd arhosiad cyfartalog cleifion orthopedeg dewisol yn y Bwrdd Iechyd yn is na chyfartaledd Cymru gyfan, mae'n debygol bod y gost gyfartalog uwch yn cael ei heffeithio gan gostau uwch sy'n gysylltiedig ag agweddau ar staffio, cyfarpar a chyffuriau.

3.14 Un ffactor sy'n dylanwadu ar gost triniaeth yw'r gost sy'n gysylltiedig â phrosthesisau. Fodd bynnag, cost gyfartalog prosthesisau fesul cyfnod yn y Bwrdd Iechyd oedd yr isaf yng Nghymru yn 2010-11 a 2011-12, a chafwyd gostyngiad 16 y cant yn y gost (Arddangosyn 27).


Arddangosyn 27: Cost prosthetig gyfartalog fesul cyfnod yn 2010-11 a 2011-12




Ffynhonnell: Ffurflenni costau Cymru

3.15 Cost diwrnod gwely claf preswyl dewisol yn 2012-13 oedd £1,540 a chost claf allanol orthopedeg yn 2012-13 oedd £1,475. Y ffigurau hyn oedd yr uchaf yng Nghymru (Arddangosyn 28). Pe bai perfformiad yn erbyn targed Llywodraeth Cymru ar gyfer derbyn cleifion ar ddiwrnod eu llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn gwella i'r lefel 64 y cant a argymhellir, gallai'r gostyngiad mewn hyd arhosiad cleifion ryddhau adnoddau gwerth tua £381,612 y flwyddyn, neu ryddhau capasiti i gynyddu llif cleifion. Yn ogystal, pe bai perfformiad yn erbyn triniaethau orthopedeg BADS yn Ysbyty Maelor Wrecsam ac Ysbyty Glan Clwyd yn gwella i'r lefel 80 y cant a argymhellir, gallai'r gwahaniaeth rhwng cost claf allanol a chost diwrnod gwely claf preswyl hefyd ryddhau adnoddau gwerth tua £16,500 y flwyddyn.

Arddangosyn 28: Cost gyfartalog fesul claf allanol orthopedeg dewisol a diwrnod gwely claf preswyl 2012-13




Ffynhonnell: Ffurflenni costau Cymru


Rhan 4

# 4 Apwyntiadau dilynol a chanlyniadau

## Trefniadau dilynol

4.1 Ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty, dylai cleifion sydd wedi cael llawdriniaeth i osod clun neu ben-glin newydd gael apwyntiad dilynol rhwng chwe wythnos a thri mis. Ni lwyddodd y Bwrdd Iechyd i adrodd ar faint o gleifion a oedd wedi cael apwyntiad dilynol o fewn yr amserlen benodedig. Fodd bynnag, dangosodd ein harolwg o gleifion fod 92 y cant o gleifion a gafodd lawdriniaeth i osod pen-glin newydd wedi cael apwyntiad dilynol ar ôl cael eu rhyddhau (Arddangosyn 29), sy'n uwch na chyfartaledd Cymru gyfan. Roedd 91.4 y cant o'r rhain wedi cael yr apwyntiad dilynol o fewn yr amserlenni penodedig.

Arddangosyn 29: Canran y cleifion yn yr arolwg o gleifion a gafodd lawdriniaeth i osod pen-glin newydd a gafodd apwyntiad dilynol ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty




Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion a Gafodd Lawdriniaeth i Osod Pen-glin Newydd

## Canlyniadau a phrofiad cleifion

4.2 I lawer o gleifion, gall llawdriniaeth fod yn brofiad cadarnhaol sy'n newid eu bywydau ac yn gwella eu hansawdd bywyd yn sylweddol, ond gall pethau fynd o chwith ambell waith. Fel rhan o'n gwaith aethom ati i adolygu amrywiaeth o ddangosyddion i ddeall i ba raddau y mae'r profiadau hyn yn niweidiol i gleifion yn y tymor byr a'r hirdymor.

4.3 Os yw claf yn dal haint mewn safle llawfeddygol mae'n bosibl y bydd yn rhaid iddo aros yn hirach yn yr ysbyty. Ar gyfer y cyfnod 2012-13, aethom ati i adolygu cyfradd yr heintiau mewn safleoedd llawfeddygol ar gyfer llawdriniaeth i osod cluniau a phengliniau newydd. Mae tua 38 y cant o weithgarwch orthopedeg dewisol yn y Bwrdd Iechyd yn ymwneud â'r triniaethau hyn. Mae cyfraddau'r heintiau mewn safleoedd llawfeddygol yn amrywio yn ysbytai'r Bwrdd Iechyd (Arddangosyn 30). Mae'r cyfraddau yn arbennig o uchel yn Ysbyty Maelor Wrecsam, sef 3.4 y cant ar gyfer llawdriniaeth i osod cluniau newydd a 3.0 y cant ar gyfer llawdriniaeth i osod pengliniau newydd. Targed Llywodraeth Cymru yw sero y cant. Ni chofnodwyd unrhyw heintiau mewn safleoedd llawfeddygol yn Ysbyty Abergele.

Arddangosyn 30: Cyfraddau heintiau mewn safleoedd llawfeddygol ar gyfer arthrosgopi cluniau a phengliniau 2012-13

| Ysbyty | Cyfradd heintiau mewn safleoedd llawfeddygol (cluniau) | Cyfradd heintiau mewn safleoedd llawfeddygol (pengliniau) |
|---|---|---|
| Glan Clwyd Cyffredinol | 1.0 | 0.9 |
| Maelor Wrecsam | 3.4 | 3.0 |
| Ysbyty Gwynedd | 1.3 | 2.0 |
| **Cyfartaledd Cymru gyfan** | 1.5 | 1.8 |

Ffynhonnell: Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru

4.4 Ar gyfer yr un cyfnod, nodwyd hefyd bod cyfraddau aildderbyn cleifion i'r ysbyty yn dilyn llawdriniaeth ddewisol i osod clun newydd yn y Bwrdd Iechyd yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan (Arddangosyn 31). Y gyfradd marwolaethau ar gyfer cleifion orthopedeg yn yr ysbyty yw'r uchaf ond un yng Nghymru, ond mae'r gyfradd marwolaethau o fewn 30 diwrnod i ryddhau cleifion o'r ysbyty yn is na chyfartaledd Cymru gyfan.


Arddangosyn 31: Cyfraddau aildderbyn cleifion a chyfraddau marwolaeth ym maes llawdriniaeth orthopedeg ddewisol 2012-13

| Dangosydd | Betsi Cadwaladr | Cyfartaledd Cymru gyfan |
|---|---|---|
| Canran y cleifion a aildderbyniwyd o fewn 28 diwrnod o gael llawdriniaeth i osod clun newydd | 1.3 | 0.9 |
| Canran y cleifion a aildderbyniwyd o fewn 28 diwrnod o gael llawdriniaeth i osod pen-glin newydd | 0.1 | 0.1 |
| Marwolaethau yn yr ysbyty fesul 100 o dderbyniadau orthopedeg dewisol | 0.09 | 0.06 |
| Marwolaethau o fewn 30 diwrnod o ryddhau cleifion orthopedeg dewisol, fesul 100 o dderbyniadau orthopedeg dewisol | 0.08 | 0.10 |

Ffynhonnell: Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru

4.5 Mae oes clun neu ben-glin artiffisial yn amrywio oherwydd nifer o ffactorau, ond maen nhw'n gallu para dros 20 mlynedd ar gyfartaledd. Fodd bynnag, wrth i oedran cyfartalog y boblogaeth gynyddu, mae'r tebygolrwydd o roi llawdriniaeth i ail-wneud y cymal newydd yn cynyddu hefyd. Fodd bynnag, gall ail-wneud llawdriniaethau ddangos nad oedd y llawdriniaeth wreiddiol i osod cymal newydd yn effeithiol. Mae'r gyfradd ail-wneud llawdriniaethau i osod cluniau a phengliniau newydd yn amrywio yn ardaloedd y Bwrdd Iechyd, a'r cyfraddau yn Wrecsam yw'r isaf yng Nghymru. Mae cyfraddau ail-wneud llawdriniaethau i osod pengliniau newydd yn uwch na chyfraddau i ail-wneud llawdriniaethau i osod cluniau newydd yn Sir Ddinbych (1.0 y cant) a Gwynedd (1.3 y cant) (Arddangosyn 32). Nid yw hyn yn wir am lefydd eraill.


Arddangosyn 32: Cyfraddau ail-wneud llawdriniaethau fesul 10,000 o'r boblogaeth 2012-13




Ffynhonnell: Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru

4.6 Fel rhan o'n harolwg o gleifion a gafodd lawdriniaeth i osod pen-glin newydd, gofynnwyd i gleifion a oedd eu llawdriniaeth wedi gwella eu symptomau. Roedd bron i 84 y cant o gleifion y Bwrdd Iechyd wedi sylwi ar welliant. Hwn oedd yr ymateb mwyaf cadarnhaol yng Nghymru. Dywedodd chwe deg pump y cant o gleifion y Bwrdd Iechyd fod llawdriniaeth wedi gwella eu symptomau yn sylweddol, a dywedodd 19 y cant arall fod llawdriniaeth wedi gwella eu symptomau yn rhannol (Arddangosyn 33). Roedd gwahaniaeth mawr rhwng sylwadau cleifion mewn ysbytai gwahanol y Bwrdd Iechyd. Yn Ysbyty Maelor Wrecsam, nododd 92 y cant o gleifion welliannau, o gymharu ag 85 y cant yn Ysbyty Abergele a dim ond 64 y cant yn Ysbyty Gwynedd.

Arddangosyn 33: Canran y cleifion a ddywedodd fod eu llawdriniaeth i osod pen-glin newydd wedi gwella eu symptomau'n rhannol neu'n sylweddol




Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion a Gafodd Lawdriniaeth i Osod Pen-glin Newydd

4.7 Dywedodd y Bwrdd Iechyd ei fod yn defnyddio sgoriau Cluniau a Phengliniau Rhydychen i fesur effaith llawdriniaethau i osod cymalau newydd, ynghyd â data cleifion a gyflwynir i Gofrestrfa Genedlaethol y Cymalau. Nodir bod hyn yn ymarfer da.

4.8 Dywedodd y Bwrdd Iechyd ei fod wedi cynnal nifer o arolygon boddhad cleifion dros y 12 mis diwethaf hefyd er mwyn casglu safbwyntiau cleifion orthopedeg. Yn ystod 2012-13, cofnododd y Bwrdd Iechyd 65 o gwynion yn ymwneud â gwasanaethau orthopedeg yn Ysbyty Maelor Wrecsam. Mae hyn yn cyfateb i lai na thri y cant o dderbyniadau cleifion preswyl orthopedeg dewisol yn Wrecsam. Mae llawer o fyrddau iechyd yn methu adrodd ar nifer y cwynion sy'n ymwneud yn benodol â gwasanaethau orthopedeg, felly nid oes modd gwneud cymhariaeth. Ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth am yr ysbytai yn y gorllewin a'r ardal ganolog.

# Atodiad 1

## Ffynonellau data

Mae'r ffynonellau data a ddefnyddiwyd i lywio'r arolwg gorfodol o wasanaethau orthopedeg yn cynnwys:

- Arolwg o Fyrddau Iechyd Swyddfa Archwilio Cymru a ofynnodd am ddata amrywiol yn ymwneud ag:
  - Atgyfeiriadau gan feddygon teulu
  - CMATS
  - Cleifion allanol orthopedeg
  - Gwasanaethau therapi
  - Gwasanaethau radioleg
  - Asesiad cyn y llawdriniaeth
  - Gwelyau orthopedeg
  - Theatrau llawdriniaeth
  - Staffio meddygol
  - Profiad cleifion
  - Gwybodaeth ariannol
- Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru
- Stats Cymru (www.statscymru.cymru.gov.uk)
- Arsyllfa Iechyd y Cyhoedd
- Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion a Gafodd Lawdriniaeth i Osod Pen-glin Newydd
- Ffurflenni costau Cymru

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru